# Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

## Cyflwyniad

Bwriad y traethawd yma yw edrych ar y wahanol gamau addysgu a dysgu nesaf gan adlewyrchu nôl ar astudiaeth achos dysgwr. Fydd y traethawd yn edrych ar yr astudiaeth gritigol yn feirniadol gan gyfeirio nôl at ddamcaniaethwyr a theorïau gwahanol ai syniadau nhw ar addysgu a dysgu. Edrychi'r ar gwricwlwm Donaldson gan adlewyrchu nôl ar yr astudiaeth achos critigol gan wneud cysylltiadau rhwng y ddau. Mae'n bwysig adnabod fod gwahanol ffyrdd effeithiol o asesu disgyblion. Edrychi'r ar sut mae disgyblion yn dysgu yn ffordd fwyaf effeithiol gan adnabod fod pob unigolyn yn wahanol ac yn dysgu gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Mae arsylwi disgyblion yn bwysig iawn o fewn ysgolion, arddangosa Hobart a Frankel (2009, tud.1)

> Observing children is different from being alert and noticing what is happening around you. Professional observations have a focus and are carried out in order to plan for and assess children in a purposeful manner.

Edrychi'r yr aseiniad yn fanwl ar astudiaeth gritigol gan arddangos y pwysigrwydd o'r ffordd fod athrawon yn dysgu mewn ysgolion heddiw, a sut fod hyn yn cyd-fynd ag syniadau ag gofynion Llywodraeth Cymru sydd yn clymu i mewn i'r Pedwar Diben gan Donaldson.

## Arsylwi

Mae'r astudiaeth gritigol a fydd yn cael ei thrafod wedi cael ei arsylwi o fewn Ysgol X sydd wedi ei lleoli yn ardal wledig yn Orllewin Cymru. Dangosa Fy Ysgol Leol (2018, para 1) yn 2018 bu 474 o ddisgyblion o fewn yr ysgol yma gyda 8.2% o'r disgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim, gwelwn fod presenoldeb yr ysgol yn uchel gyda phresenoldeb o 94.0% yn 2018. Nid oes adroddiad perthnasol ar wefan Estyn ers iddyn nhw ddod yn ysgol hollol Gymraeg yn ddiweddar. O fewn ei adroddiad yn 2015, gwelwn fod rhyw 25% o ddisgyblion efo anghenion dysgu ychwanegol, Estyn (2015, tud.3). Mae'r ysgol nawr yn ysgol hollol Gymraeg ac yn cyd-fynd ag syniadau Llywodraeth Cymru i gael fwy o siaradwyr Cymraeg yn Gymru, dangosa Llywodraeth Cymru (2017, tud.6) 'The Cymraeg 2050 strategy was launched in July 2017. It sets out the Welsh Government's long-term approach to reach the target of a million

Welsh speakers by 2050'. Bu'r astudiaeth yn cymryd lle o fewn dau ddosbarth gwahanol, dosbarth blwyddyn un a dau yn gyntaf lle mae 16 disgybl yn flwyddyn un, a 12 ddisgybl o fewn blwyddyn dau a dyma'r dosbarth cafodd yr astudiaeth gritigol ei ddarganfod. Yn yr ail ddosbarth, mae yna 30 disgybl o fewn blwyddyn un, gyda rhai efo anghenion ychwanegol. Wrth arsylwi o fewn unrhyw ysgol mae'n bwysig adnabod canllawiau BERA. Pwrpas y canllawiau yma yw sicrhau canllawiau moesegol o fewn ysgolion a thu allan, 'BERA's ethics and guidance documents are used by educational researchers and those active in many other disciplines' BERA, (2018, tud.1). Wrth fod o fewn unrhyw ysgol mae angen i bob unigolyn defnyddio'r canllawiau yma ac felly cafodd y rhain ei defnyddio o fewn Ysgol X.

**Methodoleg**

Mae arsylwi yn ffordd effeithiol o ddarganfod gwybodaeth. Mae'r defnydd o ymchwil yn bwerus iawn pan ymchwiliwyd i rywbeth penodol. Dangosa Unite for Sight, (2000-2015, para 1) fod ymchwilio i mewn i rywbeth yn helpu ni adnabod fwy amdano'r achos,

> The purpose of research is to inform action. Thus, your study should seek to contextualize its findings within the larger body of research. Research must always be of high quality in order to produce knowledge that is applicable outside of the research setting.

Fel dyweda Unite for Sight, ddylai ymchwil pob amser fod o safon uchel, mae'n bwysig fod yn ymwybodol o fethodoleg wahanol i'w defnyddio, a'r wahanol fodelau o arsylwi sydd ar gael. O fewn y dosbarth gall athro defnyddio amrywiaeth o fodelau arsylwi er enghraifft, arsylwadau sosiogramau, arsylwadau ar lafar neu ysgrifenedig neu asesu ffurfiannol a crynodol. Mae'r astudiaeth gritigol yma yn seiliedig ar arsylwi dosbarthiadau, y pwrpas o'r arsylwadau yma yw adnabod pam fod astudiaeth gritigol yma wedi digwydd, beth all osgoi neu newid yr achos.

Y fethodoleg a chafodd ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r achos critigol yma oedd defnydd o arsylwi cynlluniedig. Arddangosa Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008, tud.13) pwrpas hyn yw penderfynu'r math gorau o arsylwi a fydd yn cyd-fynd ar hyn rydym yn canolbwyntio arno. Mae arsylwi cynlluniedig yn digwydd dros amser ac mae'r math yma o arsylwi yn gweithio yn well ar ôl i ddisgyblion ddod yn arfer efo'r myfyrwyr sydd yn arsylwi ac felly ni fyddant yn newid ei ymddygiad neu agwedd, gwelwn hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2008, tud.13). O fewn arsylwadau yn

Ysgol X, ni wnaeth unrhyw ymyrraeth cael ei gwneud o fewn y diwrnod, ni wnaeth yr myfyrwyr arsylwi o fewn y gwersi cyntaf er mwyn dod i adnabod y disgyblion a sut mae'r dosbarth yn ei weithio gan symud ymlaen i arsylwi yn yr ail wers gan greu nodiadau, dilyn cwestiynau a gwylio'r gweithgareddau. Mae'r fethodoleg hyn yn dod o dan arsylwi heb gyfranogwyr, arddangosa Kumar (2014, tud.2),

> Non-participant observation, on the other hand, is when you, as a researcher, do not get involved in the activities of the group but remain a passive observer, watching and listening to its activities and drawing conclusions from this.

Gan ddefnyddio'r fethodoleg yma, maent yn galluogi i'r unigolyn arsylwi eto ar adeg wahanol i ddod o hyd i fwy o wybodaeth. Mae Kumar (2014) yn awgrymu wrth wneud hyn maent yn rhoi cyfle ac amser i adnabod a dod o hyd i gasgliadau am yr astudiaeth gritigol.

Mae yna wahanol ddiffiniadau i bwrpas arsylwadau, gelli'r dadlau fod gwahanol fodelu o arsylwi yn well na'i gilydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008, tud.8) yn dadlau fod ymarferwyr sydd yn arsylwi ac yn gwrando ar ddisgyblion o fewn y dosbarth yn gallu dod o hyd i wybodaeth cyn ac ar ôl i'r disgyblion dysgu sgil newydd. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i adnabod faint o gynnydd mae'r disgyblion yn gwneud ac i adnabod pa cymorth sydd angen ar y disgyblion neu sut i ymestyn ar eu dysgu.

Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar astudiaeth gritigol. O fewn y dosbarth, mae'n bwysig adnabod pa fath o bethau sydd yn astudiaeth gritigol ar hyn sydd yn ei wneud yn gritigol. Dangosa Tripp (1993, tud.1) y gwahaniaeth rhwng astudiaeth, ac astudiaeth gritigol a sut i ddiffinio'r ddwy,

> Incidents happen, but critical incidents are produced by the way we look at a situation: a critical incident is an interpretation of the significance of an event. To make something as a critical incident is a value judgment we make, and the basis of that judgement is the significance we attach to the meaning of the incident.

Arddangosa hyn fod y ffordd o arsylwi a chaiff ei defnyddio yn effeithio ar y math o astudiaeth gritigol sydd yn cael ei weld. Wrth wneud astudiaeth achos/critigol gwelwn fod fanteision ac anfanteision i hyn. Gelli'r dadlau mae'r manteision yw eich bod yn gweld yr achos o fewn sefyllfa go iawn. Trwy wneud astudiaeth achos gelli'r gweld yr hyn sydd yn mynd ymlaen o gwmpas yr achos a pam ei fod yn digwydd. Er ddweud

hyn, mae yna anfanteision o ddefnyddio astudiaethau critigol, gelli'r dadlau ei fod yn anodd dewis beth yw'r 'achos' a sut fod hyn yn cael ei ddiffinio yn astudiaeth gritigol. Mae'n bosib dweud fod astudiaeth achos yn gallu fod yn rhywbeth barnwrol gan ein bod yn edrych ar sefyllfa ac yn meddwl am pam fod hyn wedi digwydd, mae'n bwysig i osgoi hyn gan gadw yn broffesiynol heb feirniadu unrhyw un.

Arddangosa PressAcademia (2018, para 6) astudiaeth achos fel 'analysis of persons, groups, events, decisions, periods policies, institutions, or other systems that are studied holistically by one or more methods', gwlewn fod y math yma o fethodoleg o fewn cyd-destun dosbarth yn un berthnasol iawn wrth edrych yn fanwl at un disgybl neu grŵp o ddisgyblion. Yn wahanol i hyn, fyddai Dogan a Pelassy (1990) o fewn Flyvbjerg (2006, tud.3) yn dadlau nid yw astudiaeth achos yn beth dda i ddefnyddio gan ddweud 'one can validly explain a particular case only on the basis of general hypotheses. All the rest is uncontrollable, and so of no use'. Gwelwn fod gan unigolion wahanol farnau am ddefnyddio astudiaeth achos fel methodoleg.

**Digwyddiad beirniadol yn gysylltiedig a Phedwar Diben Donaldson.**

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei arwain gan Bedwar Diben Donaldson, arddangosa Llywodraeth Cymru, (2015, tud.8) fod y pedwar diben yma efo pwrpasau gwahanol a dywed Donaldson ddylai disgyblion fod yn 'ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn gyfranwyr mentrus a creadigol, yn unigolion iach a hyderus, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus'. Gelli'r dadlau o fewn yr astudiaeth gritigol yma, nid yw diben 'ddysgwyr uchelgeisiol a chyfranwyr mentrus a creadigol' yn rhai o'r gofynion nid yw Plentyn X yn ei arddangos o fewn y pwnc Mathemateg.

Wnaeth yr astudiaeth gritigol yma ddechrau efo wers mathemateg ar y carped gyda'r athro yn defnyddio technegau cwestiynau fel 'Ping-Pong', wrth i'r gweithgaredd yma cymryd lle, bu plentyn penodol i'w weld yn drysu. Bu'r plentyn yn edrych i fynnu, rhoi ei ddwylo ar ei phen a dros ei llygaid, dywedodd Plentyn X fod ei llygaid yn ei phoeni ac ni wnaeth cymryd rhan o fewn y wers. Ar ddiwedd y wers canodd y dosbarth gan ond ni chymrodd Plentyn X rhan. Pan oedd Plentyn X yn cymryd rhan, nid oedd yn gwybod pob gair ac felly ni ymunodd yn llwyr. Wrth i'r wers mathemateg ddod i'r diwedd, newidiodd ymagwedd Plentyn X yn llwyr, nid oedd gweld wedi drysi o gwbl ac fe fu Plentyn X yn ymuno i mewn i'r cornelu gwahanol efo'r thema gofod lle wnaeth y disgyblion dysgu am blanedau. O fewn y cornelu yma gall y disgyblion

dewis i wneud; celf a dylunio, llythrennedd a rhifedd, cymhwysedd digidol a darllen, yn amlwg gwelodd Plentyn X yn fwy hapus yn gwneud y rhain. Gan gyfeirio at Atodiad Un, gwelwn fod ymagwedd y disgybl tuag at y pwnc yn wahanol i'r ymagwedd maent yn dangos tuag at bynciau eraill. Arddangosa hyn nid yw Plentyn X yn dod o dan y diben 'ddysgwyr uchelgeisiol' gan ddangosa Llywodraeth Cymru (2015) fod angen i'r disgyblion gosod safonau uchel i'w hunain er mwyn herio a datblygu ei sgiliau, dywed fod angen i ddisgyblion defnyddio rhif yn effeithiol ac ar draws y cwricwlwm gan hefyd defnyddio a deall sut i ddefnyddio data, a chydsyniadau mathemategol ac fel gweli'r o fewn y paragraff yma, nid yw Plentyn X efo hunain hyder o fewn mathemateg er mwyn gosod safonau i'w hun, ac mae'n amlwg nid yw'n teimlo'n gyfforddus i wneud gwaith mathemateg neu i ymuno ar weithgareddau.

O fewn yr ail arsylwad, arddangosa Plentyn X yr un ymddygiad. Gweli'r yn Atodiad dau fod y disgyblion yn gwneud 'Chwilair' i ddeg neu deuddeg. Edrychodd Plentyn X wedi drysu eto wrth adolygu mathemateg ar y mat, wnaeth y dosbarth adolygu pob peth cyn gwneud y dasg a bu'r cyfarwyddiadau'r wers yn glir, poenodd Plentyn X eto ar yr adeg yma gan ddweud fod ei lygaid yn dost eto ac am adael y mat. Wrth i'r disgyblion symud at ddesgiau i ddechrau'r dasg, eisteddodd Plentyn X nesaf i'r myfyrwyr a welodd yr astudiaeth gritigol yma, teimlodd Plentyn X ei fod yn gallu rhoi cynnig ar y gwaith wrth dderbyn cefnogaeth fel sgaffaldio, gwelwn hyn yn Atodiad Dau. Gweli'r bod hyn yn eistedd o dan y diben 'yn gyfranwyr mentrus a creadigol' gan fod Llywodraeth Cymru (2015) yn dangos fod angen i ddisgyblion gallu datrys problemau ac yn unigolion sydd yn barod i roi cynnig ar bethau gwahanol. Wrth edrych ar Blentyn X o fewn y sefyllfa hon nid yw'n bwrw'r diben yma, ond mae'n bwysig i gofio, er nad yw'r disgybl yn bwrw'r ddau ddiben yma o fewn Mathemateg mae'n debygol fod y disgybl yn dod o dan y ddau ddiben o fewn bynciau eraill.

**Adolygiad Llenyddiaeth**

Y meysydd a thrafodwyd o fewn yr adolygiad llenyddiaeth yma yw hunain hyder y disgybl, asesu ar gyfer dysgu gan edrych yn fanwl at scaffaldio ac adeiladaeth gymdeithasol, a chynhwysiant. Gan edrych ar hunan hyder, gwelwn fod hyn dechrau o oedran ifanc iawn, arddangosa Barrell, Burton, *et al*, (2017, tud.64) 'Self-esteem is how we think about ourselves and is reflective of our emotional evaluation of self-

worth; this concept begins to grow and develop in a child's early years.' Mae'r arsylwadau yn dangos nid oes gan Blentyn X llawer o hunan hyder o fewn y pwnc Mathemateg ac felly mae'r disgybl yn osgoi gwneud y gwaith neu ymuno i mewn i'r gweithgareddau, nid yw'r disgybl yn gwneud unrhyw her neu am wthio ei hunain er mwyn gwellhad. Wrth weld y disgybl wedi drysu ar y carped, gelli'r dadlau fod hyn yn effeithio ar deimladau ac emosiynau'r plentyn. Mae'r astudiaeth gritigol yn dangos fod Plentyn X efo hunain hyder isel, dangosa Barrell a Burton, *et al* (2017) fod disgyblion sydd ag hunain hyder uchel yn dueddol o wneud pethau newydd ag efo nifer o gymhelliad, i gymharu ag disgyblion sydd ag hunain hyder isel sydd ag braidd ddim cymhelliad ac yn hapus ddim yn ymuno.

O fewn y wers yma, wnaeth yr athro wobrwyo a rhoi cymhelliant i bob disgybl a wnaeth rhoi cynnig neu ateb cwestiwn, cafodd y disgyblion ei chanmol sydd yn cael effaith ar hunain hyder y disgybl. Dangosa hyn fod yr ysgol yn Ysgol Ymddygiadol, gwelwn gan Culatta, (2019, para 2)

> Reinforcement is the key element in Skinner's S-R theory. A reinforcer is anything that strengthens the desired response. It could be verbal praise, a good grade or a feeling of increased accomplishment or satisfaction.

Gan feirniadu ar hyn, gwelwn fod dim cyfle gyda'r athro i ganmol y disgybl oherwydd nid yw Plentyn X yn ateb unrhyw gwestiynau. Gelli'r dadlau er bod hyn yn bwysig, nid yw'n hollol ddefnyddiol o fewn y sefyllfa yma, gweli'r bod y disgybl yn poeni am ei lygaid fel ffordd o dynnu sylw. Mae'n bwysig i gofio fod gan yr athro tri deg o ddisgyblion eraill ar y mat ac mae'n anodd cadw llygaid ar bob disgybl. Pan eisteddodd y disgybl drws nesaf i'r myfyrwyr, teimlodd yn llawer mwy cyfforddus i wneud y dasg gan holi cwestiynau, wnaeth y myfyrwyr canmol y disgybl ac felly gwelwn fwy o gymhelliad efo'r disgybl er mwyn cwblhau'r dasg a gweli'r hyn yn Atodiad Dau. Arddangosa hyn fod damcaniaeth B.F Skinner o fewn Culatta (2019) yn beth positif o ran codi hunain hyder disgybl, wrth roi canmol ac arddangos i Blentyn X ei fod yn gwneud y gwaith yn gywir, fe wnaeth hyn stimuleiddio'r disgybl tuag at wneud fwy, wrth wneud hyn ar ôl amser ni fydd Plentyn X yn teimlo neu yn arddangos yr un agwedd tuag at Fathemateg. Er ddweud hyn, o fewn pob pwnc arall fe welwn yr Undeg dwy egwyddor addysgeg gan Donaldson yn cael ei ddefnyddio, os newidiwyd agwedd a hunain hyder y plentyn am Fathemateg fyddai hyn yn sicrhau ei fod yn dysgu ar y cyd ym mhob pwnc.

Mae cynhwysiant o fewn y dosbarth yn chwarae rôl enfawr o fewn addysg plentyn. Dangosa Dowling (2010, tud.77), 'Practitioners have always recognised the importance of young children's emotional lives in relation to their overall development'. Mae cynhwysiant o fewn y dosbarth yn gallu hybu dysgu disgyblion ac ymestyn ar ei ddysgu. Fel y gwelwn o fewn Atodiad Un a Dau mae Plentyn X yn cadw nôl o fewn wersi Mathemateg ond yn ymuno yn llwyr o fewn y pynciau eraill. I gymharu ar wersi eraill o fewn yr arsylwad gwelwn fod yr ysgol yn un sydd yn defnyddio strategaethau priodol am Ysgol adeileddiaeth a dyneiddiol. Fyddai Maslow yn dadlau fod disgyblion yn dysgu yn ffordd ddyneiddiol, dyma le fod y disgyblion yn gyfrifol am ei dysgu, gelli'r dadlau fod disgyblion yn gyfrifol o ofyn am gymorth pan fod yna angen. Arddangosa Hubackova (2013, tud.2) dywed Maslow 'The motivation of individual person's behaviour may proceed from inner motives, from his own needs or from an outer impulse'.

Er mwyn gwneud yr hyn fod Maslow yn ei ddweud, mae angen i Blentyn X fod yn gynhwysol o fewn y wers, ond gelli'r feirniadu ar hyn os nad yw'r disgybl yn hyderus neu yn deall y gwaith. Mae'n bwysig fod pob ysgol yn un sydd yn gynhwysol o fewn y dosbarth. Dangosa Department of Education, (2015, tud.98) o fewn Barrell a Burton, *et al* (2017, tud.124) 'Having a positive inclusive school climate will in part be mainly dependent on the individual leadership from both the head teacher and governors'. Mae hyn yn dangos fod rhan enfawr o gynhwysiant dosbarth yn dod gyda'r athro yn lle'r disgybl, dylai'r athro sicrhau fod y dysgu ar weithgareddau yn greadigol ac yn heriol er mwyn cynhwyso'r disgyblion i mewn i'r addysgu. Yn wahanol i syniadau Maslow, fyddai Piaget yn dadlau fod disgyblion yn dysgu trwy wneud a archwilio i mewn i bethau gwahanol ar ei hun, gwelwn fod gwaith Piaget yn adlewyrchu ar ddisgyblion yn gweithio yn unigol, DeVries (2000, tud.7) 'For Piaget, self-regulation is present from early infancy in the child's equilibration of actions, and regulation by others does not have to come before self-regulation in a specific task'. Dangosa hyn fyddai'r disgybl yn gallu fod yn gynhwysol o fewn yr hyn meant yn gwneud yn unigol ond nid o fewn y wers gyfan. O fewn lawlyfr y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru (2017, tud.12) arddangosa fod dylai annog disgyblion o fewn y dosbarth i siarad ac adnabod pam ei fod yn dysgu'r sgiliau penodol gan dangos i'r athrawon sut maent yn teimlo amdano'r gwaith gan siarad am ei chynnydd. Arddangosa hyn fod

Fframwaith y cyfnod sylfaen yn sicrhau fod hunain hyder disgyblion yn cael ei chwrdd.

Y meysydd a thrafodwyd nesaf yw asesu ar gyfer dysgu. O fewn yr ysgolion ar hyn o bryd gweli'r pwysigrwydd o asesu disgyblion er mwyn sicrhau gwellhad o fewn ei ddealltwriaeth a'i ddysgu. Arddangosa Estyn (2018, para 4) fod Ysgol yng Nghymru yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol, teimlodd yr ysgol trwy asesu maent yn sicrhau addysg fwy gweladwy ac yn sicrhau fod disgyblion yn adnabod beth mae gwaith da yn edrych fel a sut i gyrraedd hyn. Mae'r ysgol yma yn gweld fod strategaethau gwahanol yn gweithio iddyn nhw, defnyddi'r meini prawf, hunan asesu ac asesu cyfoedion o fewn y dosbarth, modelu gwahanol sydd yn hybu asesu ar gyfer dysgu gan ddefnyddio pecynnau cymorth gwahanol, gweli'r o fewn Estyn (2015). Gweli'r o fewn Atodiad Un a Dau, ar Atodiadau am y dosbarth wahanol fod nifer o asesu ar gyfer dysgu yn cael ei defnyddio o fewn Ysgol X, gweli'r bod nod y wers a meini prawf ar ddechrau'r llyfrau, maent yn defnyddio pasbortau er mwyn adnabod beth sydd ar ôl i'w cwblhau. Defnyddi'r Ysgol X pen pinc os maent yn ei deall a phen gwyrdd os mae angen cymorth sydd yn asesu sut mae'r disgyblion yn deall.

Mae scaffaldio yn ffordd o asesu disgyblion yn effeithiol, fel rydym yn adnabod mae Plentyn X yn ei weld yn anodd gwneud gwaith Mathemateg yn unigol a gelli'r dadlau fod hyn yn cyd-fynd ag syniadau scaffaldio Vygotsky. Teimlodd Vygostky (1978) o fewn Agheshteh (2015, tud.1) 'Suggested that a child's functioning cannot be fully understood without knowledge of both their ZAD and ZPD'. Pwrpas y ZPD 'Zone of Proximal Development' yw bod unigolion yn gallu gwneud tasgau neu weithgareddau penodol yn well trwy scaffaldio a chael cymorth wrth unigolyn eraill fel gwnaeth Plentyn X. Mae hyn yn adeiladu ar hyder disgyblion ond yn fwyaf pwysig yn rhoi amser i'r athro i asesu'r hyn mae'r disgybl yn gallu gwneud yn annibynnol a lle mae angen cymorth arnynt ond bod y disgybl dal yn gwneud y mwyafrif o'r gwaith. Arddangosa Agheshteh (2015, tud.4)

> According to Vygotsky, ZAD refers to the cognitive functions the child is able to perform without any assistance, whereas ZPD refers to those cognitive functions the child is able to perform with the assistance of a more competent collaborator (e.g., parent, teacher, peer).

Fe welwn fod hyn yn clymu i fynnu a strategaeth Ysgol X efo'r lliwiau pen pinc neu wyrdd sydd yn arddangos dealltwriaeth y disgyblion i'r athro. Er bod y scaffaldio yn ffordd dda o asesu, gelli'r dadlau fod yn anodd i athro scaffaldio ym mhob gwers mathemateg. Fydd asesu Plentyn X yn wythnosol ar ei fathemateg yn dangos rhyw fath o ganlyniad o sut maent yn gweld mathemateg yn anodd. Gan fod hynan hyder y plentyn yn edrych yn isel, fyddai asesu a chyfoedion neu hunain asesu yn gallu fod yn effeithiol. Yn wahanol i scaffaldio gweli'r Black, Harrison *et al* (2003) y pwrpas o gwestiynu ac wrth asesu trwy gwestiynu fe weli'r bod athrawon a disgyblion yn ymateb a defnyddio gwahanol ddulliau o fewn y dosbarth. Maent yn amlwg fod gwahanol ddulliau asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith yn wahanol amgylcheddau.

**Adfyfyrio/Gwerthuso a Chamau Nesaf**

Y camau nesaf o fewn yr astudiaeth gritigol yma fyddai i adnabod nid yw un athro yn gallu dod o hyd i bob achos o fewn y dosbarth, neu hyd yn oed cadw ar ben pob disgybl phob dydd. Mae'n bwysig ystyried pa mor galed mae athrawon yn gweithio er mwyn sicrhau addysgu effeithiol. Er mwyn codi hunain hyder y disgybl, gall yr athro defnyddio strategaethau er mwyn adnabod y broblem o fewn y pwnc mathemateg. Arddangosa Barrell a Burton, *et al* (2017) gall yr athro gwestiynu'r disgybl yn ffordd sensitif i gael ateb wrth Blentyn X. Gall yr athro sicrhau fod Plentyn X yn adnabod nid all un unigolyn fod yn berffaith o fewn phob pwnc ond gelli'r darganfod y pethau positif sydd yn dod o'u waith mathemateg. Er bod Barrell a Burton (2017) yn awgrymu strategaethau effeithiol er mwyn wella dysgu Plentyn X, gall yr athro wneud hwn ar rhai dyddiau ond o fewn realiti ni fydd yr athro yn gallu gwneud ym mhob gwers, dangosa Frankel a Hobart (2009, tud.38) yr anfanteision o arsylwi ar unigolyn o fewn y dosbarth, 'you may not be able to convey all you wish as the events are happening very quickly. It is sometimes difficult to keep up with all that is happening'. Gyda'r targedau a gwaith sydd gan athrawon heddiw, mae'n amhosib iddynt ymweld ag anghenion pob plentyn maent yn gweithio efo.

Wrth edrych ar gynhwysiant y disgybl, mae hyn yn un anodd i drafod gan fod gan y disgybl agwedd a chynhwysiant hollol wahanol o fewn pynciau eraill. Gweithiodd yr athro yn dda pan esboniodd pob tasg neu dechreuodd y wers ar y mat, arddangosa'r dosbarth fod yr athro wedi gweithio yn galed wrth sicrhau cornelu cynhwysol i bob disgybl, ond er mwyn sicrhau fwy o gynhwysiant i Blentyn X o fewn wersi

mathemateg efallai gall yr athro dechrau efo profion ân ffurfiol efo'r disgyblion i gadw llygaid ar ei ddealltwriaeth o fathemateg. Gall yr athro gwneud hwn trwy ddefnyddio rhywfath o asesiad ffurfiannol sydd yn gallu cael ei wneud fel asesiad tymor byr, dangosa Clarke (2008, tud.15) 'Assessment becomes formative when it gives practical and explicit advice which will help learners know how to improve- deepening and furthering their understanding, thinking and learning'. Fydd hyn yn galluogi'r athro adnabod pam fod y disgybl yn teimlo'r ffordd yma efo mathemateg a sut i osgoi hyn digwydd gan rhoi cymorth iddynt. Fydd hyn yn sicrhau cynhwysiant ac yn codi hunain hyder.

Gweli'r bod wahanol gamau nesaf all yr athro defnyddio i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol, ond mewn gwirionedd mae angen cofio fod yr athro yma yn un arbennig sydd yn cael ei ddangos o fewn yr astudiaeth gritigol. Er bod Plentyn X yn gweld mathemateg yn anodd, mae'r gwaith yr athro yn dangos ei bod hi yn addysgu ac yn dysgu yn dda o fewn pob pwnc eraill ac felly mae'n bwysig cofio ni all pob peth o fewn y dosbarth fod yn berffaith. Gwelwn fod Gibbs (1998, tud.1) yn arddangos y pwysigrwydd i athrawon adlewyrchu nôl ar ei hun a'i wersi,

> Gibbs prompts the practitioner to formulate an action plan. This enables the reflective practitioner to look at their practice and see what they would change in the future, how they would develop/improve their practice.

Gan astudio'r astudiaeth gritigol yma a gan adlewyrchu nôl ar syniadau Gibbs, maent wedi arddangos i fy hun fod gwersi o fewn y dosbarth ddim pob amser yn mynd fel petai wedi cynllunio. Mae'n bwysig fod pob disgybl yn cael ei asesu a bod pob gwers yn denu sylw'r disgyblion er mwyn fod yn wers lwyddiannus, arsylwais ar athrawon gwahanol gan ddysgu sgiliau a gwybodaeth benodol a fydd yn helpu ac yn annog fi o fewn fy natblygiad proffesiynol a personol. Un peth pwysig a dysgais yw, fod angen adnabod pob disgybl yn dda er mwyn sicrhau'r gorau iddynt, teimlais fod llais y plentyn yn hanfodol o fewn y dosbarth.

## Casgliad

I gasglu gwelwn fod yr astudiaeth gritigol yma wedi dod o arsylwi ar ddau ddosbarth penodol gan ddefnyddio arsylwi heb gyfranogwyr. Digwyddodd yr astudiaeth gritigol yma yn hollol naturiol o fewn y dosbarth ac mae hyn wedi galluogi i'r myfyrwyr a welodd hyn i ymchwilio i mewn i'r astudiaeth. Fe wnaeth y myfyrwyr rhyw fath o asesiad ar Blentyn X i ymweld â pham cafodd y disgybl yr ymagwedd benodol at

fathemateg a beth oedd yn creu i’r disgybl teimlo'r ffordd yma a chynnig syniadau ar gamau nesaf a gelli’r defnyddio i osgoi’r sefyllfa a sicrhau addysgu a dysgu effeithiol. Wrth wneud yr astudiaeth yma, maent wedi galluogi’r myfyrwyr i ddysgu nifer amdano amgylchedd dosbarth a sut mae sicrhau addysgu a dysgu effeithiol i bob plentyn. Wrth ddarganfod yr astudiaeth achos maent wedi sicrhau fod y myfyrwyr wedi gweld sefyllfa efallai nid yw athrawon yn ymweld â phob dydd oherwydd gofynion y swydd ar waith i gyd sydd angen cwblhau. Un o’r gofynion sydd yn dod o’r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu yng Nghymru yw ‘Proffesional standards are intended to; enable practitioners to reflect on their practice, individually and collectively, against nationally agreed standards of effective practice and affirm and celebrate their success’, gwelwn hyn gan Lywodraeth Cymru (2019, para 5). Ar draws yr astudiaeth ddangosodd yr athro o fewn Ysgol X ei fod yn adlewyrchu nôl ar y gwaith a'r math o addysgu a chafodd ei ddefnyddio. Wrth wneud yr astudiaeth yma maent yng ngalluogi’r myfyrwyr i ddysgu sgiliau newydd ac ehangu ar ei ddealltwriaeth o addysgu a dysgu da.

<u>Geiriau: 4,372.</u>

# Atodiadau

## Atodiad 1.

**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

| |
|---|
| Dyddiad: 26.9.19 Atodiad 1. |
| Manylion y wers: Mathemateg.<br>(Dosbarth 1). |
| **Diwylliant ar lawr dosbarth**<br>(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)<br>O fewn y wers yma, roedd y disgyblion yn eistedd ar y mat i wneud mathemateg fel dosbarth. Fe wnaeth mwyafrif o'r disgyblion ymuno i yn y wers gan gadw canolbwyntied dda, defnyddiodd yr athro ffyrdd 'PingPong' ar draws y wers gan holi cwestiynau a pa rifau a daeth nesaf a oedd hyn yn cadw meddyliau'r disgyblion ar y Fathemateg a wnaeth hyn sicrhau adolygiad mathemateg i'r disgyblion hefyd. |
| **Amcanion**<br>(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)<br>Oedd- Disgyblion yn gwneud gwaith ar Adio a Thynnu. |
| **Cyfarwyddyd**<br>(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)<br>Fe wnaeth mwyafrif o'r disgyblion edrych yn glir am yr oeddwn yn gwneud o fewn y wers Mathemateg yma, wnaeth y wers weithio yn dda gan ddefnyddio pethau fel 'PingPong' fe wnaethom hefyd canu can am Fathemateg. Edrychodd rhai unigolion wedi drysu. |
| **Mynediad a her**<br>(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)<br>Gwelwn fod mwyafrif yn dilyn y wers ac yn cael ei herio, defnyddiodd yr athro cwestiynau fel 'A alle ti weithio allan hyn? Arbennig o dda, nawr beth amdano hwn?' ac felly wnaeth y disgyblion cael ei herio. |
| **Asesu**<br>Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?<br><br>Asesu ar ddechrau'r wers gan holi beth yw'r disgyblion yn cofio am wers ddiwethaf ar Fathemateg, defnyddiodd yr athro fel gwelwn yn gynharach ffyrdd 'PingPong' o gwestiynu, ac ar ddiwedd y wers defnyddiodd 'lolipop' sticiau er |

| |
|---|
| **Asesu**<br>Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?<br><br>Asesu ar ddechrau'r wers gan holi beth yw'r disgyblion yn cofio am wers ddiwethaf ar Fathemateg, defnyddiodd yr athro fel gwelwn yn gynharach ffyrdd 'PingPong' o gwestiynu, ac ar ddiwedd y wers defnyddiodd 'lolipop' sticiau er mwyn adolygu'r hyn a wnaeth y disgyblion o fewn y wers yma. Cafodd y disyblion digon o amser i feddwl amdano'r cwestiwn a gofynnodd yr athro ac cafon nhw llawer o canmoliaeth. |
| **Manylebau / Achosion Beirniadol**<br>Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?<br>Plentyn X ddim yn gwrando o gwbl ar y mat ar draws y wers. Plentyn X efo'i phen i lawr yr holl dro, ddim yn ymateb i unrhyw gwestiynau ac yn edrych wedi ei ddrysu. Wrth i'r wers fynd ymlaen, maent yn chwarae efo'i llygaid gan ddweud fod nhw yn dost. Ni wnaeth Plentyn X ymuno ag unrhyw adran o'r wers Mathemateg ar y Mat, wrth i'r wers ddod i ben, symudodd Plentyn X yn cloi i adael y mat wrth edrych wedi drysu i ymuno ac un o'r cornelu gwaith o fewn y dosbarth, wnaeth holi'r cynorthwyydd addysgu gan ofyn pa gornel i fynd ato. Wrth i Plentyn X dechrau o fewn y cornel, newidiodd ei agwedd a theimladau yn syth.<br><br>-Dyma prif Astudiaeth Critigol o fewn yr aseiniad. |

## Atodiad 2

| |
